Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

CADEIRYDD/CHAIRMAN: MORGAN PARRY • PRIF WEITHREDWR/CHIEF EXECUTIVE: ROGER THOMAS

Anfonwch eich ateb at/Please reply to: Roger Thomas, Prif Weithredwr/Chief Executive
Cyfeiriad Isod/Address Below
Llinell Union/Direct Line: 01248 387146; Ffacs/Fax: 01248 385506
Ebost/Email: n.sanpher@ccw.gov.uk

*Dros yr e-bost:* FinanceCommittee@wales.gov.uk

Clerc y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CAERDYDD
CF99 1NA

14 Chwefror 2012

Annwyl Sir neu Madam

**CAIS AM DYSTIOLAETH**
**EFFETIHIOLRWYDD Y CRONFEYDD STRWYTHUROL EWROPEAIDD YNG NGHYMRU**

Cyngor Cefn Gwlad Cymru yw'r corff sy'n rhoi cyngor statudol i'r Llywodraeth ar faterion yn ymwneud â chynnal harddwch naturiol, bywyd gwyllt a chyfleoedd hamddena awyr agored ar draws Cymru ac yn nyfroedd ei glannau.

Mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn hyrwyddo amgylchedd a thirweddau Cymru a'i dyfroedd arfordirol fel ffynonellau o gyfoeth naturiol a diwylliannol, fel sail i weithgarwch economaidd a chymdeithasol, ac fel man sy'n cynnig cyfleoedd hamddena a dysgu. Ein nod yw gwneud yr amgylchedd yn rhan werthfawr o fywydau pawb yng Nghymru.

Mae'r Cyngor Cefn Gwlad wedi ymwneud â'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd ers blynyddoedd lawer ac mae'n croesawu'r cyfle i ymateb i'r cais hwn am dystiolaeth ynghylch cyfnod ariannu 2007-2013. Bydd ein hymateb yn canolbwyntio ar y Rhaglen Gydgyfeirio, sef y gronfa yr ydym yn fwyaf cyfarwydd â hi.

Er y bydd yr ymchwiliad hwn yn canolbwyntio ar effaith, effeithiolrwydd yn erbyn amcanion a gwerth am arian yn ystod y cylch diwethaf, byddem yn gobeithio y bydd ein sylwadau o ryw werth hefyd wrth ddatblygu'r Rhaglenni ar gyfer y cylch nesaf o Gyllid Ewropeaidd.

Mae ein hymateb i'ch cwestiynau fel a ganlyn:

1. *I ba raddau rydych yn ystyried bod y Rhaglenni Cydgyfeirio a'r Rhaglenni Cystadleurwydd a Chyflogaeth Rhanbarthol yng Nghymru ar gyfer y cyfnod rhwng 2007 a 2013 wedi cyflawni – neu yn cyflawni – yr amcanion ar eu cyfer?*

   Prif amcan y Rhaglen Gydgyfeirio yw cynyddu Cynnyrch Mewnwladol Crynswth yr ardal ac nes bydd gwerthusiadau ôl-Raglen wedi cael eu cwblhau ni fydd yn bosibl

asesu llwyddiant. Mae'n hawdd mesur llwyddiant o ran cyrraedd y targedau rhwymo arian a gwariant ac mae'r adroddiadau'n awgrymu fod y targedau hyn yn cael eu cyrraedd ond nid yw targedau o'r fath o reidrwydd yn berthnasol i ganlyniadau economaidd tymor hir y Rhaglen .

Nod cyffredinol y Rhaglen Gydgyfeirio yw "Gwneud Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn rhanbarth bywiog, entrepreneuraidd sydd ar y blaen ym maes datblygu cynaliadwy."[1] Roedd Rhaglen Gydgyfeirio ERDF yn cydgysylltu polisïau'r UE â pholisïau cenedlaethol yn ymwneud â swyddi a thwf, yn arbennig 'Cymru: Economi yn Ffynnu', sef strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu economaidd. Nodai'r strategaeth y berthynas ategol rhwng polisïau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ac fe'i hadleisiwyd gan y 'Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru'.

Fodd bynnag, mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn teimlo nad yw cynnwys y Rhaglen yn llwyr gydnabod y cyfleoedd economaidd y mae'r amgylchedd naturiol yn eu cynnig. Nid yw prosiectau sy'n ceisio gwella neu gynnal yr amgylchedd naturiol, er mwyn adfer neu wella'r ddarpariaeth nwyddau a gwasanaethau ecosystem (dŵr, aer, rheoli llifogydd, storio carbon) yn gymwys o fewn y Rhaglen. Dehongliad cymharol gyfyngedig o botensial economaidd yr amgylchedd naturiol sy'n cael ei gydnabod ynddi, er enghraifft seilwaith ffisegol fel llwybrau a marinas, a gwelliannau ym maes hamdden a thwristiaeth.

Mae'r Fframwaith Strategol Cyffredin sydd i gael ei ddatblygu gan y DU er mwyn rhoi'r cylch nesaf o arian Ewropeaidd ar waith yn cynnig y cyfle i Gymru dderbyn arian tuag at brif raglenni Llywodraeth Cymru, yn cynnwys Cynnal Cymru Fyw.

2. *A gredwch fod y prosiectau amrywiol sy'n cael eu hariannu drwy gronfeydd strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru yn rhoi gwerth am arian?*

   Mae Cymru wedi methu cyfle drwy beidio â chynnwys gweithgareddau yn ymwneud â Natura 2000 yn ei rhaglen. Mae prosiect Natur SURF, sy'n cael ei ariannu gan Raglen IVc Interreg yr UE drwy arian ERDF, wedi dangos sut mae canllawiau'r Comisiwn Ewropeaidd ar integreiddio natur ar draws yr holl ffrydiau ariannu wedi cael eu rhoi ar waith mewn aelod wladwriaethau eraill. Ni lwyddodd Cymru i weithredu yn y ffordd integredig hon a fyddai'n golygu y gellid bod wedi defnyddio arian yn ddilys i'n helpu i roi rhwymedigaethau o dan gyfraith amgylcheddol yr UE ar waith. Yn yr ystyr hwn, mae Cymru wedi methu cael y gwerth gorau – a gwerth ychwanegol – o'r arian sydd ar gael.

3. *A oes gennych bryderon ynghylch sut y defnyddir y gronfa arian cyfatebol a dargedir? A oes gennych bryderon ynghylch defnyddio gwariant adrannol Llywodraeth Cymru fel arian cyfatebol? Pa effaith y credwch y mae toriadau yn y sector cyhoeddus wedi'i chael (ag y gallant ei chael) ar argaeledd arian cyfatebol y sector cyhoeddus?*

   Byddai prosesau'r gronfa arian cyfatebol a dargedir yn well pe câi set o feini prawf ei datblygu sy'n egluro beth yn union y mae rhaid i brosiect ei ddangos er mwyn bod yn gymwys i gael arian cyfatebol a dargedir. Dylai fod set o feini prawf gwrthrychol, sydd ar gael yn gyhoeddus, y gellir sgorio pob cais yn ei herbyn. Ar hyn o bryd, nid oes meini prawf o'r fath ar gael yn gyhoeddus ac, o'r herwydd, ni ellir bod yn ffyddiog fod y broses ddethol yn wrthrychol. Nid ydym yn awgrymu tuedd fwriadol yn y broses asesu arian cyfatebol a dargedir, ond mae datblygu meini prawf penodol, cyhoeddedig, yn gwbl hanfodol er mwyn blaenoriaethu a gwneud penderfyniadau mewn modd clir, trylwyr a thryloyw.

[1] Gorllewin Cymru a'r Cymoedd – Cydgyfeirio – Rhaglen Weithredol Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewropeaidd, 2007-2013

4. *Pa mor effeithiol y bu Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru o ran monitro a gwerthuso effaith prosiectau?*

   Credwn fod y drefn fonitro a gwerthuso a ddatblygwyd gan WEFO ar gyfer y Rhaglen Gydgyfeirio yng Nghymru yn gam mawr ymlaen o'r Rhaglenni blaenorol a dylid ei chymeradwyo. Mae'n sail dda ar gyfer gwerthuso'r canlyniadau allweddol.

   Byddem yn annog cronfeydd y dyfodol i fonitro effeithiau bioamrywiaeth cadarnhaol a gwaith ar safleoedd sydd â dynodiadau Ewropeaidd fel Natura 2000 a safleoedd Ramsar. Nid yw thema drawsbynciol cynaliadwyedd amgylcheddol yn caniatáu monitro digonol ar effeithiau o'r fath na'r canlyniadau a geir yn eu sgil.

5. *A oes gennych bryderon ynghylch y gallu i gynnal y gweithgareddau a'r gwaith a gyflawnir drwy brosiectau a ariennir yn ystod cylch cyfredol y cronfeydd strwythurol y tu hwnt i 2013?*

   Dim sylw.

6. *Beth yw eich profiad chi o gael gafael ar Gyllid Strwythurol Ewropeaidd?*

   Mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn rheoli 2 brosiect strategol mawr o dan Flaenoriaeth 4.3 o'r Rhaglen Gydgyfeirio ar hyn o bryd – sef Cymunedau a Natur (CAN) a Llwybr Arfordir Cymru.

   Mae proses WEFO o ran gwahodd Datganiadau o Ddiddordeb, ac yna, os cânt eu cymeradwyo, rhoi gwahoddiad i lunio Cynlluniau Busnes llawn, yn welliant mawr o'i gymharu â'r broses ymgeisio a oedd ar waith yn ystod Amcan 1 a rhaglenni blaenorol. Mae strwythur y Cynlluniau Busnes sy'n ofynnol gan WEFO yn ddigon hyblyg i ddarparu templed o'r hyn sy'n ofynnol ond ar yr un pryd mae modd ymhelaethu ar elfennau penodol pob prosiect.

   Yn ogystal, mae datblygu rôl 'Rheoli Prosiectau WEFO' wedi bod yn llwyddiant o bwys yn rhaglenni ôl-2006 yng Nghymru. Mae'r swyddog hwn ar lefel ddigon uchel i allu gwneud penderfyniadau a rhoi arweiniad ynglŷn â chynlluniau busnes datblygiadau ac mae'r un swyddog hefyd yn goruchwylio'r ffordd y caiff prosiectau eu rheoli wrth eu gwaith ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo.

   Byddem yn argymell fod y datblygiadau uchod yn cael eu cadw yn rhaglenni ôl-2013.

   Er i'r pwyslais cychwynnol gormodol gan WEFO ar gaffael fel ffordd o gyrchu at arian UE yn rhaglen Gydgyfeirio 2006-13 achosi problemau mawr ar ddechrau'r rhaglen, mae hyn wedi cael ei unioni i raddau helaeth gan ganllawiau cyfredol WEFO, "*Canllawiau ar Fodelau Nawdd a Darparu*" (a gynhyrchwyd ym mis Hydref 2010)[2].

   Byddem yn argymell fod y rhaglen nesaf yn cadw'r ffordd o weithredu a geir yn y papur hwnnw. Bydd hyn yn osgoi ymdrech ac oedi dianghenraid o ran ceisio dyfeisio prosesau gweinyddol newydd er mwyn cael gafael ar arian. Mae'n bosibl mai'r cylch nesaf fydd y mewnbwn mawr olaf o arian UE i Gymru ac mae'n hanfodol felly ein bod yn osgoi'r cyfnodau hir o oedi a gafwyd ar ddechrau rhaglenni 2006 pan gyflwynwyd systemau gweithredu a darparu newydd.

---

[2] http://wefo.wales.gov.uk/applyingforfunding/submitting/guidance/sponsorshipdeliverymodels/?skip=1&lang=cy

Er gwaethaf yr uchod, mae gennym rai sylwadau sy'n deillio o roi'n prosiectau strategol ar waith. Ein profiad ni o weithio gydag awdurdodau lleol (a hwythau wedi gwneud cais o dan un o'n prosiectau strategol) yw fod llawer o'u swyddogion yn teimlo fod y gwaith sy'n ofynnol i ddangos eu bod yn cydymffurfio'n ariannol â rheoliadau'r UE a gweithdrefnau WEFO yn hynod anodd – er enghraifft, gofyniad yr UE fod rhaid dangos fod treuliau wedi cael eu talu. Mae hyn wedi arwain at drafodaethau ac oedi hir yn y sefydliadau hyn wrth iddynt roi eu prosiectau ar waith.

Awgrymwn y gellir osgoi llawer o'r problemau hyn yn rhaglenni'r dyfodol pe bai WEFO yn cynhyrchu canllawiau yn benodol ar gyfer awdurdodau lleol. Dylai canllawiau o'r fath adlewyrchu'r systemau ariannol a ddefnyddir gan awdurdodau lleol a dylid cytuno arnynt ar lefel Cymru ar gyfer yr awdurdodau lleol i gyd. Gellid gofyn i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru gymeradwyo canllawiau o'r fath ymlaen llaw a'i hannog i'w lledaenu ar draws y sector.


7. *A yw'r sector preifat yng Nghymru wedi ymgysylltu'n ddigonol â'r broses o gael gafael ar Gyllid Strwythurol Ewropeaidd?*

   Mae'r ffocws ar gaffael agored a ddatblygwyd gan WEFO ar gyfer y Rhaglen Gydgyfeirio yn sicrhau fod y sector preifat yn ymwybodol o'r cyfleoedd ac yn gallu cyflwyno tendrau i ymgymryd â gwaith.

8. *Yn 2009, llwyddodd Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i negodi cynnydd yng nghyfraddau ymyrryd y rhaglenni gyda'r Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer dwy raglen gydgyfeirio Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Chronfa Gymdeithasol Ewrop. Yn ei adroddiad ym mis Gorffennaf 2010, nododd y Pwyllgor Menter a Dysgu fod Asiantaeth Datblygu Rhanbarthol y De-orllewin wedi negodi cyfraddau ymyrryd uwch gyda'r Comisiwn Ewropeaidd. A yw Cymru'n gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o'r cyfraddau ymyrryd uwch hyn?*

   Dim sylw.

Yn gywir



**Roger Thomas**
**Prif Weithredwr**